

Disgrifiad Swydd

Teitl: Aseswr

Crynodeb/Pwrpas: Mae'r rôl yn gyfrifol am gynyddu perfformiad y cwmni drwy ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac yn cefnogi gwelliant parhaus yn y ddarpariaeth. Mae'n cefnogi ac yn ysbrydoli dysgwyr drwy gydol eu taith hyfforddi, gan sicrhau bod pob unigolyn yn dilyn llwybr clir a strwythuredig sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn hyderus, dangos eu sgiliau, a chyflawni cymwysterau cydnabyddedig. Drwy gyfuno darparu hyfforddiant effeithiol, asesu, a chefnogaeth bersonol i ddysgwyr, mae'r rôl yn sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni canlyniadau ystyrlon. Dyfarniad Asesydd neu gymhwyster cyfatebol a chymhwysedd galwedigaethol priodol yn ofynnol.

Adrodd i: Rheolwr Perfformiad

Goruchwylio: N/A

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Penodol

Ansawdd

- Sicrhau bod systemau Sicrhau Ansawdd Mewnol yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn unol â'r cod ymarfer.
- Dilyn a chynnal gofynion cymwysterau'r Corff Dyfarnu yn unol â'r safonau cyfredol.
- Sicrhau bod taith y dysgwr wedi'i chynllunio'n effeithiol, wedi'i dogfennu'n gywir, a'i diweddarau'n gyson er mwyn galluogi cyflawniad canlyniadau amserol.

Hyfforddi / Asesu

- Cyflwyno asesiad o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar wybodaeth a chymhwysedd i ddysgwyr/cleientiaid a neilltuwyd gan sicrhau bod y safonau uchaf posibl yn cael eu cyflawni.
- Cwmpasu ardal ranbarthol, teithio i ymweld â dysgwyr yn y gweithle i gynnal asesiadau. Mae rheoli llwyth achosion ac amserlennu'n effeithiol yn hanfodol.
- Cefnogi dysgwyr i symud ymlaen trwy'r daith ddysgu trwy gynllunio effeithiol, adborth a rhyngweithio rheolaidd â dysgwyr.
- Cyfrifol am fod yn berchen ar gwblhau cymwysterau amserol pob dysgwr ar eich llwyth achosion.
- Cyfrifol am gynnal adolygiadau cynnydd dysgwyr misol a chytuno ar dargedau mesuradwy clir trwy gyfleu cynnydd a chyflawniad dysgwyr i'r rheolwr/cyflogwr yn gyson drwy gydol y rhaglen Cwblhau
- Cynlluniau Dysgu Unigol gyda phob dysgwr i sicrhau bod cefnogaeth effeithiol a phriodol yn cael ei darparu drwy gydol taith y dysgwr a bod cynnydd yn cael ei gofnodi.
- Gwella profiad a chefnogaeth y dysgwr a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, TGCh a digidol.
- Cyfeirio at dystiolaeth a gesglir yn y gweithle ar gyfer cymwysterau craidd a gofynion Sgiliau Hanfodol a'i marcio.
- Cynllunio a chydlynu sesiynau sefydlu effeithiol i ddysgwyr gyda dysgwyr a chyflogwyr, gan sicrhau bod taith lawn y dysgwr yn cael ei chytuno, ei dogfennu a'i hadolygu'n rheolaidd.
- Trefnu hyfforddiant pellach trwy ryddhau undydd a darparu cefnogaeth hyfforddi fewnol yn ôl yr angen.
- Cefnogi gyda datblygu cwricwlwm i wella profiad y dysgwr.
- Ymgysylltu â chyflogwyr, cynnal perthnasoedd gwaith da, cefnogi ymgysylltiad a chyflawniad dysgwyr.
- Sicrhau bod gwaith dysgwyr yn cael ei asesu i sicrhau y gellir cynnal samplu IQA ar gamau ffurfiannol, parhaus a chrynodol.
- Sicrhau bod hwyluso tasgau a phroffion rheoledig yn cael eu cynnal mewn modd proffesiynol
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i Aseswyr Hyfforddeion pan fo angen.

- Cynnal gwybodaeth a glynu wrth Safonau Proffesiynol Dysgu Seiliedig ar Waith, Cod
- Ymarfer y Gweithlu Addysg a Chod Ymddygiad y cwmni

Penodol

- Sicrhau diogelwch asedau'r cwmni
- Cydymffurfio â holl bolisiâu a gweithdrefnau'r cwmni
- Cydymffurfio â pholisi a gweithdrefn diogelu'r cwmni
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth Cyfle Cyfartal a bod yn rhagweithiol wrth herio rhagfarn, gwahaniaethu a stereoteipio.
- Gweithredu polisiâu a gweithdrefnau ansawdd y Cwmni yn llawn.
- Ymgynghori â Pholisi lechyd a Diogelwch y Cwmni ynghylch eu cyfrifoldebau penodol fel y'u disgrifir yn yr adran trefniadau cyffredinol
- Ystyried eu gweithredoedd yn y gwaith o ran sut y gallent effeithio ar ddiogelwch Dysgwyr, cleientiaid ac ymwelwyr â safleoedd y Cwmni
- Cefnogi a dangos gwerthoedd craidd y sefydliad
- Meddylfryd perchnogaeth. Dangos atebolrwydd a dibynadwyedd, cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a chyflawni dangosyddion perfformiad allweddol yn amserol.
- Cydweithredu â'r holl staff i sicrhau gweithle iach a diogel ac adrodd am unrhyw risgiau a nodwyd, yn safleoedd y cwmni neu safleoedd eraill, i'r Swyddog lechyd a Diogelwch dynodedig.
- Dyletswyddau eraill a allai gael eu nodi o bryd i'w gilydd gan y Cwmni.
- Mynychu rhaglenni hyfforddi / datblygiad personol perthnasol

Crynodeb Personol

	Hanfodol	Dymunol
Profiad & Chymwysterau	<p>Profiad o gyflwyno o fewn y maes hyfforddi gofynnol</p> <p>Profiad o Ddysgu yn y Gwaith</p> <p>Profiad o arferion Cyrff Dyfarnu</p> <p>Cymhwyster CAVA neu gymhwyster cyfatebol</p> <p>Profiad asesydd Cyfathrebu Lefel 2 ESW Cymhwysio Rhif Lefel 2 ESW</p> <p>Profiad galwedigaethol o fewn y llwybrau sy'n cyflwyno</p> <p>Profiad cyflwyno prentisiaeth gyda'r llwybrau sy'n cyflwyno</p> <p>Trwydded yrru lawn gyda defnydd o'ch cerbyd eich hun</p>	<p>Cymhwyster TAQA neu gymhwyster cyfatebol</p> <p>City & Guilds 9300 Lefel 2 mewn cefnogi Oedolion a Phobl Ifanc mewn Sgiliau Hanfodol (neu'n barod i weithio tuag ato)</p>
Sgiliau	<p>Sgiliau trefnu rhagorol</p> <p>Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol</p> <p>Gweithio'n effeithiol o fewn tîm</p>	Rhugl yn y Gymraeg
Gwybodaeth	<p>Gwybodaeth a dealltwriaeth Diogelu ac Atal</p> <p>Gwybodaeth am ofynion ESW.</p> <p>Llythrennog mewn TG</p>	Gwybodaeth am gynlluniau hyfforddi a ariennir yn gyhoeddus
Nodweddion	<p>Yn grymuso eraill</p> <p>Yn dangos angerdd dros ddysgu</p> <p>Yn dangos ymrwymiad i gynhwysiant</p> <p>Yn meithrin twf trwy wella prosesau ac arferion yn rhagweithiol</p> <p>Yn hunangymhellol, yn hunangychwynnol.</p> <p>Yn hyblyg o ran dull.</p> <p>Y gallu i weithio dan bwysau</p> <p>Dibynadwy</p> <p>Brwdfrydig</p> <p>Chwaraewr tîm</p>	